



**Y Coleg  
Merthyr Tudful**

**The College  
Merthyr Tydfil**

# **Adroddiad Blynyddol Ebrill 2017 – Gorffennaf 2018**

## **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

**Paratowyd yn unol â gofynion  
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg  
This document is available in English



## Cynnwys

Rhagarweiniad	Tudalen 3
Cydymffurfio	Tudalen 5
Recriwtio	Tudalen 6
Cwynion	Tudalen 6
Sgiliau yn y Gymraeg	Tudalen 7
Hyfforddiant yn y Gymraeg	Tudalen 8
Bathodynnau Adnabod	Tudalen 8



**Rhagarweiniad**

Crëwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. O 1 Ebrill 2018, mae gan Y Coleg Merthyr Tudful ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2017. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan Y Coleg Merthyr Tudful o 31 Ionawr 2019.

Yn ôl y Fframwaith Rheoleiddio, mae'n ofynnol i'r Coleg adrodd ar bedwar maes statudol:

- Delio â'r ffordd y mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â'r gwahanol ddsbarthiadau o safonau a osodwyd arno.
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg.
- Nifer yr aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn y Gymraeg os yw ar gael yn y Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, sefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch)
- Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag sydd wedi'u categoreiddio fel rhai lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, yn ddianghenraid, neu'n rhai y mae angen eu dysgu.
- Nifer y cwynion a dderbyniodd y sefydliad am bob dosbarth o safonau.

<b>Gofynion</b>	<b>Safon</b>
-----------------	--------------



Cydymffurfio	154, 155, 156, 164, 170, 176
Sgiliau yn y Gymraeg	134, 158, 161

Nifer yr aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn y Gymraeg os yw ar gael yn y Saesneg	135, 136, 138, 139, 140, 141, 159,
Swyddi lle mae'r Gymraeg wedi'i chategoreiddio'n hanfodol neu'n ddymunol	145, 145A, 162
Cwynion	154, 155, 156, 164, 170, 176

### **Grŵp Llywio'r Gymraeg**

Mae'r Coleg Merthyr Tudful yn aelod o Grŵp Llywio'r Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru, ac fe'i cadeiriwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae'r Grŵp yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn i drafod pob agwedd ar y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gweithredu, monitro a hyrwyddo safonau'r Gymraeg. Ffurfiwyd y Grŵp i gynyddu twf y Gymraeg ledled ein sefydliad.

### **Cydlynwyr y Gymraeg**

Mae'r Coleg yn rhan o grŵp adrannol a gynhelir ym Mhrifysgol De Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolydd o bob cyfadran academiaidd ac adran ganolog. Cynhaliwyd y cyfarfodydd bob



mis yn ystod y cyfnod cydymffurfio. Bydd y Grŵp hwn yn cefnogi'r dasg o weithredu safonau'r Gymraeg, yn delio ag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sy'n gysylltiedig â disgwiliadau'r gwasanaeth, yn delio â dysgwyr a'r cyhoedd, yn gofyn am gyngor gan gydlynwyr eraill, ac yn rhannu arferion da.

### **Monitro**

Ymgymrerir â'r broses fonitro gan Dîm Cymraeg y Coleg yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Coleg.

Y nod yw canfod arferion gweithredu a chydymffurfio da ar draws y Coleg gan ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd tymhorol â phenaethiaid adran i sicrhau bod diweddariadau a chynnydd yn cael eu trafod; hefyd, defnyddir siopwyr dirgel gyda'u hymweliadau, negeseuon e-bost a galwadau ffôn. Mae hyn yn galluogi'r Tîm i ganfod arferion da a rhoi cefnogaeth i unrhyw ddatblygiad ychwanegol. Gwneir hyn yn flynyddol a chaiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i Dîm Gweithredol y Coleg. Yna, caiff y canlyniadau hynny eu hadrodd yn ôl i'r Penaethiaid Adran gan Swyddog Safonau'r Gymraeg.

### **Cydymffurfio**

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y Coleg, mae aelodau staff presennol yr holl adrannau wedi cael hyfforddiant lawn i godi'u hymwybyddiaeth o'r disgwiliadau ynghylch safonau'r Gymraeg. Bydd yr holl staff newydd yn derbyn yr hyfforddiant hwn fel rhan o'u rhaglen gynefino. Caiff pob un ohonynt Becyn Canllaw ar Safonau'r Gymraeg fel y gallant barhau â'u cydymffurfiaeth. Darperir Canllaw i Reolwyr ar gyfer pob Rheolwr a Phennaeth



Adran fel y gallant rannu arferion da o fewn eu timau a chynnal cydymffurfiaeth. Mae'r Canllawiau hyn hefyd i'w gweld ar fewnwyd y staff ac ar fwrdd gwaith pob aelod staff o dan "Safonau'r Gymraeg".

- ❖ Mae Tîm y Gymraeg yn monitro cynnydd a chysondeb y dasg o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Y dull monitro a ddefnyddir yw "siopa dirgel" trwy e-bost, galwadau ffôn ac ymweliadau â'r Coleg.
- ❖ Trefnir cyfarfodydd tymhorol â Phenaethiaid Adran a Swyddog Safonau'r Gymraeg i drafod unrhyw ymholiadau neu gwestiynau all godi yn ogystal ag adborth a ddaw yn sgil canlyniadau'r monitro.
- ❖ Mae Tîm y Gymraeg yn cynnal cyfarfodydd bob tymor i drafod y Gymraeg a'r Safonau. Mae'r Tîm yn cynnwys llysgenhadon o blith y myfyrwyr Cymraeg ac aelod staff o bob adran dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Coleg.
- ❖ Caiff diweddariadau a nodiadau atgoffa eu dosbarthu trwy femo wythnosol a ddosberthir bob dydd Llun i'r holl staff gan Bennaeth y Coleg.

### Swyddi Gwag

<b>Nifer y swyddi a hysbysebir gyda'r Gymraeg fel sgil hanfodol neu ddymunol, a chanran y swyddi hynny sydd wedi'u llenwi â siaradwyr Cymraeg</b>	
<b>Nifer</b>	<b>% y swyddi sydd wedi'u llenwi â siaradwyr Cymraeg</b>
10	10%



### Cwynion

Mewn perthynas â'r Gymraeg a'r Safonau, ni wnaed unrhyw gwynion ffurfiol. Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Gwyno ar gael ar wefan y Coleg.

### Sgiliau'r gweithwyr yn y Gymraeg

<b>Safon 158 : Nifer a % y staff academaidd sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul Cyfadran</b>		
<b>Adran/Cyfadran</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Gofal	2	1%
Y Dyniaethau/Cymraeg	3	1.11%
Technoleg	1	0.5%
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>	<b>2.61%</b>

### Safon

158

**Nifer a % y staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg fesul  
adran/ysgol/coleg a/neu raddfa swydd**

---

<b>Adran</b>	<b>Siaradwr Cymraeg (rhugl)</b>	<b>Siaradwr Cymraeg</b>	<b>Canran yr Holl Staff sy'n Siarad Cymraeg</b>
--------------	---	-----------------------------	---



		(ddim yn rhugl)	
Marchnata/Derbyniadau/Ymholiadau	3		1.11%
Dysgu Seiliedig ar Waith		1	0.5%
Hafan Dysgu	2	1	1.11%
Ystadau ac Isadeiledd	0	0	0%
Cofnodion Myfyrwyr		1	0.5%
Cyllid Myfyrwyr		1	0.5%
Uwchsgilio@Waith		1	0.5%

### **Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigir yn y Gymraeg**

Gwnaeth cyfanswm o 75 aelod staff fynychu cwrs hyfforddi yn ystod y flwyddyn academiaidd 2017-18 i wella'u sgiliau yn y Gymraeg.

### **Safon 160: Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn i ddynodi eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**

Mae Swyddog y Gymraeg wedi dosbarthu laniardiau i'r holl staff hynny sydd wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr Cymraeg. Mae'r staff yn hyderus wrth wisgo'r laniardiau hyn ac yn eu hystyried fel ffordd ddefnyddiol i adnabod siaradwyr Cymraeg o gwmpas y Coleg. Cyfanswm y staff sy'n gwisgo Laniardiau Siarad Cymraeg Rhugl yw **11**. Cyfanswm y staff sy'n gwisgo Laniardiau Dysgu Cymraeg yw **7**.

### **GWYBODAETH BELLACH**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adroddiad blynyddol neu unrhyw agwedd ar ymdrechion Y Coleg Merthyr Tudful i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae croeso ichi gysylltu â:

Lynwen Harrington  
Y Coleg Merthyr Tudful  
College Boulevard





**Y Coleg  
Merthyr Tudful**

**The College  
Merthyr Tydfil**

Merthyr Tudful  
CF48 1AR

[l.harrington@merthyr.ac.uk](mailto:l.harrington@merthyr.ac.uk)